OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 1339

# Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2018

## RHAN 7

## Staffio

**Cefnogi a datblygu staff**

**30.**—(1) Rhaid i'r darparwr awdurdod lleol gael polisi yn ei le ar gyfer cefnogi a datblygu staff.

(2) Rhaid i'r darparwr awdurdod lleol sicrhau bod unrhyw berson sy'n gweithio yn y gwasanaeth (gan gynnwys person y caniateir iddo weithio fel gwirfoddolwr)—

(a) yn cael cyfnod sefydlu sy'n briodol i'w rôl,

(b) yn cael ei wneud yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau ei hun a chyfrifoldebau staff eraill,

(c) yn cael ei oruchwylio a'i arfarnu'n briodol,

(d) yn cael hyfforddiant craidd sy'n briodol i'r gwaith sydd i'w wneud ganddo,

(e) yn cael hyfforddiant arbenigol fel y bo'n briodol, ac

(f) yn cael cymorth a chynhorthwy i gael unrhyw hyfforddiant pellach sy'n briodol i'r gwaith y mae'n ei wneud.

(3) Rhaid i'r darparwr awdurdod lleol sicrhau bod unrhyw berson a gyflogir i weithio yn y gwasanaeth yn rheolwr yn cael ei gefnogi i gynnal unrhyw gofrestriad â Gofal Cymdeithasol Cymru.